Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut mae fy mhlentyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen?

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

Canllaw i rieni a gofalwyr

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Cynnwys

Beth yw'r Cyfnod Sylfaen?	**3**
Dysgu trwy chwarae	**4**
Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?	**5**
Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol?	**13**
Beth yw'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol?	**14**
Sut caiff fy mhlentyn ei asesu?	**15**
Proffil y Cyfnod Sylfaen	**15**
Asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen	**16**
Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol	**16**
Sut bydda' i'n gwybod sut mae fy mhlentyn yn dod yn ei flaen?	**17**
Pwy sydd â'r hawl i gael adroddiadau a gwybodaeth arall oddi wrth yr ysgol?	**18**
Pa gyfleoedd sydd gennyf i drafod adroddiad fy mhlentyn â'r ysgol?	**18**
Sut galla' i helpu fy mhlentyn i ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen?	**19**
Syniadau llythrennedd a rhifedd	**20**
Symud yn ddidrafferth i Gyfnod Allweddol 2	**21**
Ble galla' i gael rhagor o wybodaeth am y Cyfnod Sylfaen?	**21**
Adnoddau defnyddiol	**22**

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35015
ISBN digidol 978 1 78937 259 5

Beth yw'r Cyfnod Sylfaen?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gwricwlwm datblygiadol i blant tair i saith oed yng Nghymru. Mae'n ceisio annog plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus a chael hwyl, ac mae'n gwneud dysgu yn fwy pleserus ac effeithiol.

Bydd eich plentyn yn cael cyfleoedd i archwilio'r byd o'i gwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n berthnasol i'w gam datblygu. Caiff eich plentyn ei herio drwy weithgareddau ymarferol a bydd cwestiynau penagored yn datblygu ei sgiliau meddwl. Bydd eich plentyn hefyd yn cael ei annog i archwilio cysyniadau a rhannu syniadau ar gyfer datrys problemau.

Dysgu trwy chwarae

Chwarae yw un o'r prif ffyrdd y mae plant yn dysgu. Rydyn ni'n cydnabod pa mor bwysig yw chwarae ym mywydau plant, ac yn nodi yn ein canllawiau statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* (2014): 'Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwerth mawr ar chwarae ac ar ei bwysigrwydd i fywydau plant yn ein cymdeithas … Credwn hefyd fod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad gwybyddol; corfforol; cymdeithasol ac emosiynol plant.'

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i adeiladu ar yr egwyddorion o ddysgu trwy chwarae ac mae'n rhan hollbwysig o'r cwricwlwm. Rydyn ni'n gwybod o dystiolaeth bod dysgu drwy chwarae yn adnodd pwerus. Mae'n gallu helpu plant i ddatblygu ac ehangu eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae chwarae yn eu galluogi i fod yn greadigol, i ymchwilio ac archwilio gwahanol ddefnyddiau, ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw arbrofi a rhagweld canlyniadau. Gall hefyd eu helpu i ddatblygu eu hyder, eu hunangymhelliad a'u rheolaeth ar eu meddyliau eu hunain ac ar y camau a gymerant. Mae chwarae hefyd yn caniatáu i blant brofi eu gallu eu hunain, dangos menter, cymryd risgiau a gwneud camgymeriadau heb ofn methu. Drwy chwarae, mae plant yn dysgu sgiliau negodi a sut i ffurfio perthynas gyda'u cyfoedion.

Mae sawl math o chwarae sy'n cefnogi'r saith Maes Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, mae enghreifftiau o'r mathau hyn o chwarae yn cynnwys chwarae adeiladu, chwarae rôl, chwarae creadigol, chwarae symbolaidd fel gwneud marciau (er enghraifft gwneud llun, paentio, ysgrifennu, ac yn y blaen) a chwarae archwiliadol.

Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?

Mae saith Maes Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen (chwech yn y lleoliadau hynny – a all fod yn feithrinfeydd, grwpiau chwarae a ariennir neu warchodwyr plant – neu yn yr ysgolion hynny lle mai Cymraeg yw'r brif iaith) lle mae modd cydblethu gweithgareddau a phrofiadau chwarae strwythuredig ac ysgogol yn y profiadau dysgu a gaiff eu cynnig yn yr awyr agored ac yn yr ystafell ddosbarth.

Nodiadau

[1] Bydd hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn dibynnu ar bolisi iaith y lleoliad neu ysgol.

[2] Nid yw'n ofynnol yn y lleoliadau neu'r ysgolion sy'n dilyn y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae galluogi plant i ddysgu am eu hunain ac i ffurfio perthynas â phlant ac oedolion eraill yn rhan bwysig o'r Cyfnod Sylfaen. Caiff eich plentyn ei annog i ddatblygu mwy o hunanbarch a datblygu gwerthoedd moesol personol, a bydd hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o'u hunaniaeth diwylliannol o fewn cymdeithas amlddiwylliannol.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – ysgol y goedwig

Mae ardal o goed a llwyni yn yr ysgol wedi cael ei sefydlu fel 'ysgol y goedwig' gyda phebyll a thân gwersyll lle mae'r plant yn cael picnics, chwarae rôl ac yn cael sesiynau cerddoriaeth. Maen nhw'n cael eu haddysgu gan ymarferydd sydd wedi'i hyfforddi'n benodol.

Mae'r plant yn cynhesu gwrthrychau cyffredin ac yn dysgu pa effaith a gaiff gwres a thân ar wahanol ddefnyddiau. Maen nhw'n creu mwclis o ddefnyddiau naturiol fel pren, aeron a dail. Maen nhw'n coginio cyris mewn potiau dros dân agored, yn rhostio marshmallows a thostio bara ar ffyn.

Mae dysgu fel hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol a chymdeithasol plant. Mae'r plant yn dysgu ac yn chwarae gyda'i gilydd a hefyd yn dysgu sut i adnabod perygl, parchu'r tân a'i drin yn ofalus, a sut i drin offer miniog yn ofalus.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd plant yn profi pob math o wahanol brofiadau a gweithgareddau iaith. Bydd eu sgiliau'n datblygu wrth iddyn nhw siarad, gwneud arwyddion/cyfathrebu a gwrando.

Bydd modd iddyn nhw ddewis a defnyddio gwahanol ddeunyddiau darllen er mwyn datblygu eu mwynhad a'u dealltwriaeth a chânt eu cefnogi wrth iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu.

Caiff plant eu hannog i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau, ac ailadrodd eu profiadau.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – picnic tedi bêr

Daeth plentyn â thedi bêr newydd i mewn i'r dosbarth i'w ddangos. Trafododd y plant a phenderfynu cynnal picnic eu hunain i'r tedi bêrs gan ymchwilio i gefnogi'u cynlluniau a'u syniadau.

Buon nhw'n gwrando ar y gân 'Teddy Bears' Picnic' cyn penderfynu cynnal y picnic yn y goedwig, yn union fel y rhai yn y gân. Dros yr wythnos nesaf, gwahoddodd y plant eu tedi bêrs i bicnic iach ac aethon nhw ati i lunio rhestrau siopa. Aethon nhw ar y rhyngrwyd i edrych ar ragolygon y tywydd ar gyfer diwrnod y picnic, gan ddod o hyd i'w pentref ar y map, a mynd i'r siopau lleol i brynu'r pethau oedd ar y rhestr siopa. Yna dysgwyd y gân 'Teddy Bears' Picnic' cyn i'r plant ychwanegu cerddoriaeth gyda'u hofferynnau.

Ar ddiwrnod y picnic, daeth y plant â'u tedi bêrs i'r ysgol, paratoi'r bwyd trwy ddilyn ryseitiau syml, pacio'u bagiau a cherdded eu tedi bêrs i'r goedwig am eu picnic. Tynnodd y plant luniau o'r picnic er mwyn gwneud fersiwn eu hunain ar gyfrifiadur llechen o'r gân 'Teddy Bears' Picnic' ar ffurf llyfr digidol.

Datblygiad Mathemategol

Bydd plant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy wahanol brofiadau ymarferol. Trwy chwarae â rhifau mewn gweithgareddau bob dydd byddan nhw'n datblygu gwahanol ddulliau ar gyfer datrys problemau mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Byddan nhw hefyd yn ymchwilio i briodweddau siâp ac yn didoli, paru, trefnu a chymharu gwrthrychau, ac yn creu patrymau a pherthnasoedd syml. Byddan nhw hefyd yn ennyn gwell dealltwriaeth o amser ac arian mewn modd ystyrlon.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – dinosoriaid

Roedd gan y plant ddiddordeb mewn dysgu am ddinosoriaid ar ôl i blentyn ddod â thegan dinosor i mewn i'r ysgol. Rhannodd yr ymarferydd gasgliad o ddinosoriaid gyda'r plant gan ofyn iddyn nhw fesur pob un i weld pa un oedd hiraf a pha un oedd fyrraf. Gwnaethon nhw hefyd ddarllen llyfr am ddinosoriaid a darganfod bod y dinosor go iawn mwyaf yn 27 metr o hyd. Nid oedd hyn yn golygu unrhyw beth i'r plant felly aeth yr ymarferydd â nhw tu allan ac aethon nhw ati i fesur 27 metr fel eu bod yn deall pa mor fawr oedd y dinosoriaid.

Roedd llawer o waith chwarae rôl yn ogystal. Roedd y plant wedi actio fel dinosoriaid a chreu 'stomp y dinosor' drwy ddefnyddio offerynnau taro i ddynwared sŵn dinosoriaid yn cerdded drwy'r jyngl.

Datblygu'r Gymraeg

Bydd cyfle i blant sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf ddysgu i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu yn y Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Bydd plant yn datblygu'r sgiliau hyn drwy gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hwyliog ac ymarferol, gan ddefnyddio gwahanol adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol ac yn eu datblygu. Caiff eu profiadau llafar eu defnyddio i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau darllen a'u sgiliau ysgrifennu.

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen bydd pob lleoliad neu ysgol cyfrwng Saesneg yn rhoi cyfle i blant ddysgu Cymraeg a mwynhau ei defnyddio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae cyfrwng Cymraeg priodol bob dydd.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – siop y groser

Er mwyn ceisio datblygu defnydd y plant o gwestiynau Cymraeg mewn modd ystyrlon, aeth yr ymarferydd ati i greu siop y groser ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl. Arweiniodd yr ymarferydd y gweithgaredd gan ddefnyddio geiriau Cymraeg priodol i ofyn ac ateb cwestiynau a hefyd i ddefnyddio 'os gwelwch yn dda'. Cafodd y plant ryddid i chwarae yn y siop eu hunain ac ymarfer eu geirfa newydd.

Cafodd y plant hefyd eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau iaith newydd yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth ofyn am ffrwyth amser byrbrydau neu am eitem arbennig yr oedd arnyn nhw ei angen.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Bydd plant yn cael profiadau sy'n cynyddu eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas i'w helpu i ddeall mwy am ddigwyddiadau yn y gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud.

Byddan nhw'n dysgu sut i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd.

Byddan nhw'n datblygu eu syniadau, a dysgu sut i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – pengwiniaid

Ar ôl wythnos o eira dechreuodd y plant drafod lleoedd oer ac ystyried sut y gallai pengwiniaid ymdopi â thywydd o'r fath. Yn gyntaf, archwiliodd y plant gynefin y pengwiniaid drwy lyfrau lluniau ac yna cymharu'r hinsawdd â hinsawdd Cymru. Yna gwnaethon nhw ystyried anifeiliaid eraill sy'n byw o dan amodau tywydd garw. Buon nhw'n trafod camelod yn yr anialwch a theigrod yn y jyngl. Llenwodd y plant falwns a menyg rwber â dwr a'u rhoi yn y rhewgell. Roedd y canlyniadau'n rhyfeddol. Gwnaeth y plant ofyn ac ateb llawer o gwestiynau, gan ddatblygu eu geirfa. Chwaraeon nhw gemau adnabod llythrennau, gan guddio'r llythyren 'p' am 'pengwin' o amgylch yr ystafell.

Yna roedd yr ymarferwyr wedi helpu'r plant i wneud pypedau pengwin a golygfeydd eira o bethau fel poteli plastig gwag a rholiau cardfwrdd, gan greu cefnlun ar gyfer chwarae rôl a storïau am 'bengwiniaid'.

Datblygiad Corfforol

Bydd plant yn cael eu hannog i fwynhau gweithgareddau corfforol a bydd yr ymdeimlad o hunaniaeth sy'n datblygu wedi'i gysylltu'n agos â'u hunanddelwedd, eu hunanbarch a'u hyder eu hunain.

Byddan nhw'n dod yn fwy ymwybodol o iechyd, hylendid, diogelwch a phwysigrwydd deiet, gorffwys, cysgu ac ymarfer corff.

Byddan nhw'n cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau echddygol bras (symudiadau mwy o freichiau, coesau, traed, neu'r corff cyfan megis cropian, rhedeg a neidio) a sgiliau echddygol manwl (y defnydd o'r cyhyrau llai o'r dwylo a'r bysedd i ymgymryd â gweithgareddau megis defnyddio pensiliau neu siswrn, rhoi edau mewn nodwydd, ac yn gwneud botymau i fyny), rheolaeth gorfforol, symudedd ac ymwybyddiaeth o le gan ddefnyddio offer mawr a bach ar draws yr holl Feysydd Dysgu, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – y wal ddringo

Roedd y wal ddringo newydd yn boblogaidd iawn gyda'r plant. Fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr wedi sylwi mai'r un plant oedd yn dringo'r wal bob tro, tra bo rhai plant yn cael eu gadael allan o'r gêm. Penderfynon nhw ganolbwyntio'r gweithgaredd ar sut y gallai'r plant helpu ei gilydd i fynd dros y wal. Roedd y plant yn gweithio gyda phartner ac yn helpu ei gilydd i ddringo'r wal.

Trwy gefnogi ac annog ei gilydd â'r rhannau anodd, roedden nhw'n gwella eu sgiliau personol, eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau cyfathrebu, a hefyd yn gwella eu cydsymudiad a'u sgiliau echddygol bras. Erbyn diwedd y sesiwn roedd y plant yn trafod sut y gallai pob un ohonyn nhw ddefnyddio'r wal ddringo o hyn ymlaen, gan helpu ei gilydd dros y wal ac o'i hamgylch.

Datblygiad Creadigol

Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygol a mynegiannol mewn celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symud yn cefnogi datblygiad creadigol plant. Byddan nhw'n archwilio adnoddau amrywiol iawn, yn datblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau creadigol, a phwyso a mesur eu gwaith.

Gweithgaredd dysgu enghreifftiol – Brig-Ddyn

Roedd grŵp o blant yn darllen *Brig-Ddyn* gan Julia Donaldson yn y dosbarth. Roedd gan y plant ddiddordeb mawr yng nghymeriadau'r llyfr ac roedden nhw'n bryderus iawn am ddiogelwch y Brig-Ddyn. Ar ôl trafod â'r ymarferydd penderfynodd y plant greu siart gynllunio ar ffurf gwe pry cop ar gyfer casglu syniadau a gweithgareddau dilynol cyffrous y byddai modd eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau ar draws yr holl Feysydd Dysgu, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored. Ymysg eu syniadau roedd:

- creu ffrind ar gyfer y Brig-Ddyn
- cynllunio a chreu dillad ar gyfer teulu'r brig-ddyn
- creu pypedau ac ysgrifennu sgriptiau
- gwneud teulu mawr o frig-ddynion yn ardal y goedwig
- creu pentref o frig-ddynion
- trefnu a mesur ffyn
- ysgrifennu dyddiadur a thaflenni gwybodaeth
- creu dawns i deulu'r Brig-Ddyn i ddathlu ei fod wedi dychwelyd
- trafod cymeriadau da a chymeriadau drwg y stori
- ysgrifennu problemau'r Brig-Ddyn ynghyd â'u problemau nhw a'u rhoi mewn 'sach problemau' er mwyn ysgogi trafodaeth.

Bu'r dosbarth yn gweithio ar thema'r Brig-Ddyn a'i datblygu dros gyfnod o chwe wythnos, gan ddysgu, datblygu ac ymarfer sgiliau newydd ar draws yr holl Feysydd Dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Aeth y plant ati i greu llyfr digidol er mwyn egluro a gwerthuso eu gweithgareddau. Cafodd y llyfr hwn ei rannu ar wefan yr ysgol.

Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol?

Cafodd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) ei ddatblygu er mwyn helpu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd gwych ein holl ddysgwyr yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n cynnig datblygiad parhaus ar gyfer plant a phobl ifanc 3 i 16 oed, ac mae'n pennu deilliannau clir ar gyfer yr hyn sy'n ddisgwyliedig bob blwyddyn o ran llythrennedd a rhifedd.

Bydd lleoliadau neu ysgolion yn defnyddio'r FfLlRh i sicrhau bod addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael ei ymgorffori ym mhob Maes Dysgu, yn yr amgylcheddau dysgu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r awyr agored.

Bydd plant cyn oedran ysgol yn datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar, gan ganolbwyntio ar siarad a gwrando, datblygu eu geirfa a'u dealltwriaeth o safbwynt pam rydyn ni'n defnyddio rhifau, yn darllen ac yn ysgrifennu.

Caiff pob plentyn ei gefnogi i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn. Yn ogystal â dysgu Cymraeg, Saesneg a mathemateg, mae'r sgiliau hyn yn rhai y gall plant eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae llythrennedd yn disgrifio set o sgiliau, gan gynnwys siarad a gwrando (llafaredd), darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.

Mae rhifedd yn disgrifio'r defnydd o sgiliau rhif, mesur a data, a'r gallu i adnabod a defnyddio'r sgiliau hyn i ddatrys problemau.

Beth yw'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol?

Rydyn ni'n datblygu cwricwlwm newydd cyffrous ar gyfer ein holl ddysgwyr 3 i 16 oed yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno erbyn 2022 ond rydyn ni eisoes wedi dechrau cyflwyno elfennau ohono yn ein lleoliadau a'n hysgolion. Cafodd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ei gyflwyno yn 2016 fel elfen gyntaf ein cwricwlwm newydd.

Datblygwyd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol i ategu'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sylfaenol y bydd modd adeiladu arnyn nhw wrth iddyn nhw gamu ymlaen drwy eu haddysg. Mae ein plant yn ymuno â byd digidol sy'n symud yn gyflym. Rydyn ni am iddyn nhw gael y sgiliau i fod yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol pan fyddan nhw'n defnyddio technoleg.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn dwyn ynghyd sgiliau a fydd yn helpu plant i ffynnu mewn byd cynyddol ddigidol, er enghraifft sut i gadw'n ddiogel ar-lein a chadw eu gwaith yn electronig a hefyd deall y pwysigrwydd o gydbwyso'r amser a dreulir yn syllu ar y sgrin ac yn chwarae gemau â rhannau eraill o'u bywyd.

Sut caiff fy mhlentyn ei asesu?

Caiff dysgu eich plentyn ei asesu'n barhaus drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy arsylwi ar ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

Proffil y Cyfnod Sylfaen

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen (y proffil) (**gov.wales/topics/educationandskills/foundation-phase/foundation-phase-profile/?skip=1&lang=cy**) yn helpu i asesu dysgu a datblygiad plant drwy gydol eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen.

Prif ddiben y proffil yw darparu asesiad cychwynnol, cyson, cenedlaethol sy'n cyd-fynd â'r deilliannau diwedd cyfnod. Drwy ddefnyddio dulliau arsylwi ac asesiadau ffurfiannol, mae'r proffil yn helpu ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol i bob plentyn. Mae'r proffil wedi'i gynllunio i gyd-fynd ag asesiadau a gynhelir gan weithwyr iechyd proffesiynol ac mae hefyd yn helpu i nodi unrhyw oedi datblygiadol posibl yn gynnar. Bydd hyn yn sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r plant hynny sydd ei angen. Bydd yr asesiadau a gasglwyd fel rhan o'r proffil yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i bawb sy'n gysylltiedig am ddysgu a datblygiad plant, gan helpu i symud rhwng lleoliadau ac ysgolion.

Asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, bydd ymarferwyr yn penderfynu pa Ddeilliant y Cyfnod Sylfaen ar raddfa'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n adlewyrchu cynnydd eich plentyn orau.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, ar gyfer yr holl blant ym Mlynyddoedd 2 i 9, yn helpu ysgolion ar draws Cymru i asesu sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr ac i gael dealltwriaeth gliriach o ddatblygiad a chynnydd dysgwyr. Mae'r wybodaeth o'r profion cenedlaethol yn cael ei defnyddio law yn llaw â mathau eraill o asesu i alluogi athrawon i gynllunio addysgu a dysgu er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau o ddiwedd Blwyddyn 2.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar-lein o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen, gan ddechrau gyda rhifedd gweithdrefnol, a fydd yn disodli'r profion papur dros gyfnod o dair blynedd.

Am ragor o wybodaeth ar y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, ac asesiadau personol ar-lein, chwiliwch am 'Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol' ar **dysgu.llyw.cymru**.

Sut bydda' i'n gwybod sut mae fy mhlentyn yn dod yn ei flaen?

Byddwch chi'n cael adroddiad ysgrifenedig am gynnydd eich plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Cewch hefyd gyfle i gwrdd ag ymarferydd eich plentyn. Fe'ch anogir hefyd i drafod cynnydd eich plentyn yn anffurfiol, yn enwedig os ydych chi'n pryderu am ei ddatblygiad.

Bydd adroddiadau ar gyfer pob plentyn yn cynnwys:

- manylion byr am gynnydd eich plentyn, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w datblygu a'r camau nesaf ym mhob Maes Dysgu perthnasol
- gweithgareddau a gwblhawyd fel rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, y FfLlRh ac addysg grefyddol
- gwybodaeth ar bresenoldeb eich plentyn
- y trefniadau sydd ar gael i drafod yr adroddiad.

Bydd hyn yn rhoi cipolwg i chi o gynnydd eich plentyn a'i lefelau cyrhaeddiad yn erbyn safonau cenedlaethol. Bydd gwybodaeth o ddeilliannau diwedd cyfnod hefyd yn rhan o adroddiad eich plentyn ar ddiwedd Blwyddyn 2.

Bydd adroddiadau ar gyfer plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen hefyd yn cynnwys:

- asesiad athrawon o ddeilliannau ar ddiwedd cyfnod ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg); a Datblygiad Mathemategol
- y canlyniadau yn seiliedig ar y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ynghyd â gwybodaeth am gynnydd eich plentyn o safbwynt llythrennedd a rhifedd
- canlyniadau cyffredinol plant o'r un oedran o fewn yr ysgol (heblaw mewn ysgolion bach iawn lle y caiff pump neu lai o blant eu hasesu).

Mae'n ofynnol i bob darparydd gofal plant cofrestredig lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n cymryd i ystyriaeth sylwadau'r holl bobl sy'n gysylltiedig, gan gynnwys plant, rhieni a gofalwyr.

Pwy sydd â'r hawl i gael adroddiadau a gwybodaeth arall oddi wrth yr ysgol?

Mae gennych chi'r hawl i gael copi o adroddiad eich plentyn oddi wrth y lleoliad neu'r ysgol. Mae gennych chi'r hawl i gael copi o adroddiad blynyddol y llywodraethwyr hefyd.

Mae gan rieni neu ofalwyr sydd wedi ysgaru neu wahanu, ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, yr hawl i weld yr wybodaeth hon oni bai bod gorchymyn llys a fyddai'n atal hyn.

Pa gyfleoedd sydd gennyf i drafod adroddiad fy mhlentyn â'r ysgol?

Bydd adroddiad eich plentyn hefyd yn esbonio sut y gallwch chi ei drafod ag ymarferwyr yn y lleoliad neu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn cynnal nosweithiau rhieni/gofalwyr pan fydd ymarferwyr yn hapus i drafod cynnydd eich plentyn â chi.

Bydd corff llywodraethu'r ysgol yn cynnal cyfarfod blynyddol er mwyn trafod adroddiad blynyddol y llywodraethwyr a rhannu barn ynghylch datblygiad yr ysgol. Mae hawl gennych chi i fynychu'r cyfarfod hwn ac rydych chi'n cael eich annog i wneud hynny.

Sut galla' i helpu fy mhlentyn i ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen?

Dylai profiad eich plentyn yn y Cyfnod Sylfaen fod yn un hapus; os nad yw plant yn hapus, byddan nhw'n llai parod i ddysgu. Gallwch chi annog eich plentyn i fod yn garedig a dangos parch at eraill, a rhoi gwybod i rywun os yw'n gweld plentyn yn cael ei fwlio neu'n bwlio plentyn arall. Os yw eich plentyn yn cael ei fwlio, dylech chi drafod y mater gyda'r ysgol cyn gynted â phosibl. I gael mwy o help a chefnogaeth, ewch i **www.llyw.cymru** a chwiliwch 'A yw eich plentyn yn cael ei fwlio?'.

Gallwch chi gael effaith bositif ar ddatblygiad, dychymyg a diddordeb eich plentyn drwy gyfrannu at eu haddysg, nid dim ond gartref, ond yn yr ardd, yn y parc, ac yn y siopau. Y mwyaf y caiff plant eu hysgogi, eu hannog a'u cynnwys, y mwyaf y byddan nhw'n dysgu. Gall ysgolion weithio gyda theuluoedd hefyd i gefnogi dysg eu plentyn.

Rydyn ni wedi creu ambell syniad dysgu i chi a'ch plentyn eu mwynhau, ond mae cymaint mwy yn bosibl. Felly beth bynnag y byddwch chi'n ei wneud gyda'ch gilydd, a lle bynnag y byddwch chi'n mynd, gwnewch y peth yn hwyl ac yn ysbrydoliaeth i'ch plentyn drwy droi'r peth yn gêm ddysgu.

Mae addysg yn dechrau yn y cartref

Er mwyn eich helpu chi i helpu eich plentyn yn fwy, rydyn ni wedi lansio ymgyrch o'r enw 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref'. Mae'n cynnig syniadau a gweithgareddau y gallwch chi eu gwneud gartref er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn gwneud cynnydd. I weld sut y gallwch chi elwa ar yr ymgyrch edrychwch ar ein tudalen ar Facebook yn **www.facebook.com/dechraucartref**

Pori Drwy Stori

Rhaglen ddwyieithog gyffrous yw Pori Drwy Stori sydd â'r nod o helpu plant â'u llythrennedd wrth iddyn nhw ddechrau yn y dosbarth Derbyn. Mae'r rhaglen yn cael ei chynnig ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ynghyd ag adnoddau a all gynorthwyo rhieni/gofalwyr gartref fel partneriaid yn nysg eu plentyn. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **poridrwystori.booktrust.org.uk**

Syniadau llythrennedd a rhifedd

Mae geiriau a rhifau i'w gweld ym mhob man. Dangoswch i'ch plentyn pa mor bwysig yw sgiliau rhif a sgiliau geiriau, a rhowch hwb i'w hyder trwy ei helpu i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol hyn.

Ffyrdd difyr o helpu plant gyda llythrennedd

- Cofiwch fod mwy na llyfrau ar gael i'w darllen. Rhowch gyfle i'ch plentyn ddarllen comics, cylchgronau, tudalennau gwe, llyfrau coginio, gemau, ac yn y blaen.
- Pan fyddwch chi'n mynd allan am bryd o fwyd, darllenwch y fwydlen gyda'ch gilydd a gofynnwch iddo eich helpu i ddewis.
- Canwch rigymau gyda'ch gilydd os yw eich plentyn yn ifanc. Os yw'n hŷn, gallwch chi ei annog i ganu gyda cherddoriaeth sydd ar y radio.
- Ymunwch â llyfrgell leol am ddim. Byddwch chi'n synnu beth sydd ar gael – amser dweud stori, digwyddiadau llawn hwyl, ac mae llyfrau plant ar gael i'w benthyg am ddim.
- Mae darllen gyda'ch plentyn am gyn lleied â 10 munud y dydd yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr a'i helpu i ddarllen yn well.

Ffyrdd difyr o helpu plant gyda rhifedd

- Pan fyddwch chi'n mynd i siopa, gofynnwch i'ch plentyn gyfrif y darnau o ffrwythau y mae arnoch chi eu heisiau, er enghraifft gallwch chi ofyn am 3 oren, 5 afal a 3 banana.
- Chwiliwch am gyfle i chwarae gemau sy'n cynnwys nodi'r rhifau ar glociau, darnau o arian, prisiau mewn archfarchnadoedd, bysiau ac ar becynnau.
- Rhowch gyfle i'ch plentyn weld beth sy'n digwydd wrth i chi dalu am eich siopa, gan ddangos iddo'r gwahanol ffyrdd o dalu am bethau gyda chardiau banc neu arian parod.
- Gallwch chi helpu eich plentyn i gynllunio sut mae am wario'i arian pen-blwydd, a thrwy hynny ei helpu i ddatblygu sgiliau rheoli arian.

Symud yn ddidrafferth i Gyfnod Allweddol 2

Ar ôl gorffen yn y Cyfnod Sylfaen, bydd eich plentyn yn symud yn ddidrafferth i'r cyfnod dysgu a elwir yn 'Cyfnod Allweddol 2'.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am Gyfnod Allweddol 2, ceir canllaw i rieni/gofalwyr o'r enw *Sut roedd yr ysgol heddiw? – Canllaw ar ysgolion cynradd i rieni a gofalwyr plant 7 i 11 oed*. Ewch i **www.llyw.cymru** a chwiliwch 'Sut roedd yr ysgol heddiw?'.

Ble galla' i gael rhagor o wybodaeth am y Cyfnod Sylfaen?

Gallwch chi ofyn i weld copïau o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen, y FfLlRh, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a maes llafur addysg grefyddol yr ysgol.

Dylai copïau o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen fod ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus neu ewch i **www.llyw.cymru/cyfnodsylfaen**

Adnoddau defnyddiol

Bydd y rhestr hon o adnoddau defnyddiol o gymorth i chi fel rhiant/gofalwr i gael mwy o wybodaeth i'ch helpu i gefnogi eich plant.

Bitesize
Adnodd ar-lein gan y BBC sy'n rhad ac am ddim i helpu plant yn y DU gyda'u gwaith ysgol. (Mae'r wefan hon ar gael yn Saesneg yn unig.)
www.bbc.co.uk/bitesize

Lovereading4kids
Bydd hwn yn eich helpu i ddarganfod llyfrau a fydd yn eu hysbrydoli a'u helpu i gwympo mewn cariad â darllen. (Mae'r wefan hon ar gael yn Saesneg yn unig.)
www.lovereading4kids.co.uk

Sumdog
Safle sy'n cynnig gemau i wneud mathemateg yn hwyl. Maen nhw ar gael yn rhad ac am ddim, gyda'r opsiwn o danysgrifio i nodweddion ychwanegol. (Mae'r wefan hon ar gael yn Saesneg yn unig.)
www.sumdog.com

Newid am Oes
Syniadau a ryseitiau i'ch helpu chi a'ch teulu i fod yn iachach ac yn hapusach.
www.newidamoes.org.uk

Fy Ysgol Leol
Bwriad y wefan yw cynnig gwybodaeth am ysgolion i rieni/gofalwyr a phawb sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.
fyysgolleol.llyw.cymru

Estyn
Mwy o wybodaeth am berfformiad eich ysgol.
www.estyn.llyw.cymru

Cyngor y Gweithlu Addysg
Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn rheoleiddio ymarferwyr addysg yng Nghymru er lles dysgwyr, rhieni/gofalwyr, a'r cyhoedd. Gallech chi wirio ar-lein bod athrawon a staff cynorthwyo ysgol eich plentyn wed'u cofrestru.
www.cga.cymru

Meic
Llinell gymorth gyfrinachol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. O gael gwybod beth sy'n digwydd yn eich ardal leol i helpu i ddelio â bwlio.
www.meiccymru.org

Dysgu Cymru
Adnodd ar y we yw Dysgu Cymru, a'i nod yw ymateb i anghenion addysgwyr ac ymarferwyr, a gwella safonau darparwyr dysgu ledled Cymru.
dysgu.llyw.cymru

Hwb
Mae'r Llwyfan Dysgu Digidol Cenedlaethol a'r ystorfa gynnwys yn rhoi mynediad i ystod o adnoddau dysgu digidol o ansawdd uchel a miloedd o adnoddau digidol o ansawdd uchel i'w defnyddio yn y dosbarth er mwyn helpu i weddnewid y dosbarth yn ddigidol
hwb.llyw.cymru

Y Parth Dysgu Creadigol
Parth ar Hwb sy'n cynnig gwybodaeth ac ysbrydoliaeth i helpu i wneud sgiliau creadigol yn rhan annatod o'r cwricwlwm.
hwb.llyw.cymru/creativity

Parth Diogelwch Ar-lein
Parth ar Hwb sy'n cynnwys ystod o adnoddau a dolenni i gael mynediad at gymorth a chanllawiau i helpu cadw plant yn ddiogel ar-lein.
hwb.llyw.cymru/diogelwcharlein

Cenhadaeth ein cenedl
Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* yn adeiladu ar y ddogfen *Cymwys am Oes*, a gyhoeddwyd yn 2014, a *Dyfodol Llwyddiannus* sef adolygiad o'r cwricwlwm yn 2015. Mae cenhadaeth ein cenedl yn amlinellu sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen rhwng 2017 a 2021 gyda'r nod o roi'r cwricwlwm newydd ar waith a chan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a rhagoriaeth a thegwch o fewn system sy'n gwella ei hunan. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol a hyder ymysg y cyhoedd.
gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy

Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd (YGaTh)
Casgliad o adnoddau i ysgolion yw hwn sy'n annog ac yn cefnogi rhieni a gofalwyr i fod yn bartneriaid effeithiol yn addysg a chyrhaeddiad eu plentyn. Chwiliwch 'Pecyn Cymorth Ymgysylltu a'r Gymuned a Theuluoedd' ar-lein.
dysgu.llyw.cymru

The Fostering Network
Fe'i sefydlwyd yn 1974, a hi yw prif elusen y DU ar gyfer pawb sy'n ymwneud â maes maethu, gan dynnu ynghyd bawb sy'n cynllunio ac yn darparu gofal maeth. (Mae'r wefan hon ar gael yn Saesneg yn unig.)
www.thefosteringnetwork.org.uk

Hawliau Plant
Rhestr o hawliau yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i bob plentyn a pherson ifanc, pwy bynnag y bônt a lle bynnag maen nhw'n byw. Dyma sydd ei angen arnyn nhw er mwyn bod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.
www.hawliauplant.cymru

Plant 4–11 (Cymraeg – Byw, Dysgu, Mwynhau)
Beth bynnag yw iaith eich cartref, gall addysg Gymraeg roi sgiliau ychwanegol a mwy o gyfleoedd i blant yn y dyfodol. Felly, hyd yn oed os nad ydych chi'n siarad Cymraeg eich hun, beth am ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eich plentyn? Chwiliwch 'Plant 4–11' ar-lein.
www.cymraeg.llyw.cymru

Cyw
Cyfres o raglenni teledu Cymraeg ar S4C yw Cyw, ar gyfer plant rhwng tair a chwech oed yn bennaf. Caiff y rhaglenni eu darlledu o 7am hyd 1pm ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n cynnwys rhaglenni sydd eisoes wedi'u darlledu gan S4C fel rhan o Blaned Plant Bach.
www.s4c.cymru/cyw